

AR GYFER AMSER FEL HWN

CWRS ASTUDIO CHWE SESIWN
Archwilio cyfiawnder ecolegol

#FORSUCHATIME

WWW.USPG.ORG.UK/FORSUCHATIME

USPG⁺ PARTNERS IN
GLOBAL MISSION



CYFLWYNIAD

Mae'r byd mewn argyfwng; mae'r Cread yn ochneidio. Clywn gri y Ddaear mewn difodiant rhywogaethau, yn yr argyfwng hinsawdd, mewn anghyfiawnder hiliol systemig, mewn tlodi materol, mewn gwrthdaro, ym mhandemig byd-eang Covid-19. Mewn amser fel hwn, beth sydd gan Gristnogion i'w gynnig?

Bu pobl a'r Ddaear yn codi eu llef ers blynnyddoedd. Ond am lawer yn rhy hir, mae llawer – yn enwedig pobl yng Ngogledd y byd – wedi dewis peidio gwrando, gan ddal i fod ymhlyg yn y dinistr a pharhau i gynyddu anghyfarfaledd.

Awgryma athrawiaeth y Creu inni nas bwriadwyd pethau erioed i fod fel hyn, ond bod y natur ddynol wedi ei llychwino, yn syrthiedig, yn ôl rhai. Fodd bynnag, fe gynnig stori Feiblaidd iachawdwriaeth feddyginiaeth, gan ein herio i chwarae'n rhan ym mhroses gwaredigaeth ac ail-Greu. Dyma'r siwrnai y byddwn yn ei chymryd gyda'n gilydd dros y chwe wythnos nesaf, gan edrych ar yr oblygiadau i'n bywydau bob dydd fel unigolion ac fel cymunedau ffydd a gobaith. Disgrifir y pandemig Covid-19 gan rai fel deffroad mawr, 'moment kairos' i'r blaned, sy'n ein herio i aros, i feddwl ac i newid cyfeiriad.

'Rydym yn byw mewn byd toredig ac anghyfartal. 'Rydym yma ar gyfer amser fel hwn. Wedi'n galw i ymateb mewn gair a gweithred. Mae USPG yn partneru gydag eglwysi ar draws y byd yn eu cenhadaeth i drawsnewid bywydau trwy addysg, gofal iechyd a chyfiawnder i bawb. Cawn weld wrth inni symud trwy'r cwrs, fod partner eglwysi USPG yn cynnig inni fewn-olygon, gobaith ac anogaeth drwy'r ffyrdd y maent yn wynebu pynciau cyfiawnder ecolegol yn eu cyd-destun eu hunain: ac wrth wneud hynny, maent yn ein herio ni i ymateb. Ydym ni'n barod i dderbyn yr her?

CYNNWYS

Gwneud y gorau o'r Cwrs Astudio...	4
Ysgolion Gwyrdd India	5
Astudiaeth 1:	
Ar gyfer amser fel hwn.....	6
Astudiaeth 2: Y Cread	10
Astudiaeth 3: Y Cwmp	14
Astudiaeth 4: Gwaredigaeth.....	18
Astudiaeth 5: Adferiad.....	22
Astudiaeth 6: Ail-Greu	26
Rhestr termau	30
Diolchiadau	32
Ffurflen gyfrannu	33
USPG a'ch Eglwys Chi	35
Pum nod cenhadaeth	36

Wedi'i gyfieithu gan **Noel Davies**



GWNEUD Y GORAU O'R CWRS ASTUDIO HWN

1. Ymrwymwch i fynychu pob un o'r chwe sesiwn. Y mwyaf y gallwch eu mynychu, y mwyaf y byddwch yn elwa a'r mwyaf y byddwch yn cynnal parhad y grŵp. Gwnewch addewid i'ch hunan i geisio gwrthod unrhyw ymrwymadau neu wahoddiadau eraill allant godi ar adegau pan mae'r astudiaethau i'w cynnal.
2. Cychwynnwch bob astudiaeth gyda chyfnod o dawelwch er mwyn helpu canoli sylw'r grŵp a dwyn ar gof bresenoldeb Duw, yna gweddiwch gyda'ch gilydd y weddi sydd ar gychwyn pob sesiwn.
3. Ymrwymwch i rannu'n onest a gwranddo heb farnu neu geisio 'datrys' bywyd rhywun arall drostynt. Ceisiwch greu awyrgylch diogel lle mae pobl yn teimlo y gallant rannu'n agored. Cofiwch, nid oes gan neb ohonom yr atebion i gyd. Ein nod yw bod yn ddiffuant a chyfan – nid bod yn berffaith!
4. Cydnabyddwch fod profiad pawb o fywyd a ffydd yn unigryw a gwerthfawr. Dylem geisio derbyn ein gilydd fel yr ydym, yn union fel y mae Duw yn derbyn bob yr un ohonom.
5. Rhowch gyfle i bawb siarad, er na ddylai neb deimlo gorfodaeth i siarad. Os ydych yn berson sy'n dueddol i siarad llawer, cofiwch roi cyfle i eraill sy'n ei chael yn fwy anodd i rannu.
6. Darllenwch y deunydd o flaen llaw a rhowch gyfle i'r cynnwys suddo i mewn – ond heb deimlo fod rhaid dod o hyd i'r atebion.
7. Cofiwch fod geiriau crefyddol neu ddiwinyddol yn medru golygu rhywbeth gwahanol i wahanol bobl. Rhannwch eich persbectif chi a gadewch i eraill ddal persbectif gwahanol.
8. Gorffennwch pob sesiwn drwy weddi.
9. Gwnewch ymrwymiad i weithredu. Bob wythnos byddwch yn trafod, yn myfyrio, yn gweddio a gweithredu. Trwy newid eich arferion a chodi arian i'r eglwys fyd-eang medrwyd fod yn rhan o rywbeth sydd y tu hwnt i'ch cymuned chi a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Gofynnwch i bawb yn eich grŵp astudio chi i greu Blwch neu Jar Grawys* er mwyn iddynt fedru casglu'r arian y byddant yn ei arbed bob wythnos drwy eu gweithredu.

Yn olaf, fe welwch Restr Termau tua diwedd y llyfryn astudio hwn ar dud. 30.

*Y mae gan USPG Flychau Grawys a gellir eu harchebu o www.uspg.org.uk/forsuchatime neu gallwch ddefnyddio hen bot jam a'i addurno.

YSGOLION GWYRDD INDIA

Bydd unrhyw arian a godir neu a roddir fel rhan o'r cwrs 'Ar gyfer amser fel hwn' yn mynd tuag at Y Rhaglen Ysgolion Gwyrdd a gwaith ehangach Eglwys De India.



Sefydlwyd Y Rhaglen Ysgolion Gwyrdd gan Eglwys De India (EDI) mewn ymateb i lygru'r amgylchedd mewn ardaloedd trefol a heriau ecolegol eraill sy'n wynebu India. Cynigir addysg i nifer o blant bob blwyddyn gan EDI. Cymerodd y cyfle i ysbrydoli cenhedlaeth newydd am bwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd. Gofynnant i ddisgyblion yn eu hysgolion i ymateb i'r heriau amgylcheddol a wynebir gan bawb ohonom. Bydd plant yn India yn anadlu aer llygredig yn y strydoedd orlawn o'u cwmpas. Trwy wahodd plant i ddysgu am faterion amgylcheddol ac ymateb iddynt trwy weithredu cadarnhaol, dylem weld newid yng nghenedlaethau'r dyfodol. Bydd disgyblion yn dysgu am yr adnoddau y maent yn eu defnyddio; cânt eu cymhell i ddefnyddio adnoddau'n ofalus ac i gymryd camau i warchod ein byd.

Bydd pob ysgol yn anelu at fod yn fwy effeithlon gyda'r adnoddau

naturiol sydd ganddynt. Er enghraifft, defnyddio llai o ddŵr, gwella effeithlonrwydd egni, lleihau gwastraff, ac ail-gylchu. Trwy weithredu y mae plant yn dysgu am ffyrdd gwell o fyw'n gynaliadwy.

Cychwyn y broses yw gwerthusiad o'r adnoddau naturiol y maent yn eu defnyddio yn yr ysgol. Yna bydd y plant yn awgrymu syniadau am sut i newid pethau. Byddant yn defnyddio sgiliau ar draws ystod y cwricwlwm a bydd yn rhaid iddynt gyd-weithio – er mwyn iddynt ddysgu sgiliau pwysig adeiladu tîm hefyd.

"Mae pobl yn byw yn y byd yma fel petai ganddynt blaned arall i fynd iddi." Gwêl Hermani, o Ysgol Santes Hilda, yn Ooty, Esgobaeth Coimbatore, y dylanwad a gaiff yr Ysgolion Gwyrdd ar ei hysgol hi. Mae'r ysgol yn casglu dŵr glaw mewn tanciau mawr ac yn ei ddefnyddio i fflysio'r toiledau, ar gyfer garddio, i olchi, a coginio gydag ager. Mae plant o ysgolion ar draws De India yn rhoi eu ffydd ar waith drwy weithredu i ofalu am Gread Duw.

Yn union fel mae plant mewn ysgolion ar draws De India yn ymateb i'r heriau hyn, pam na ofynnwch i'ch plant chi, yr ysgol Sul neu'r ysgol leol, i ymateb i rai o'r gweithgareddau wrth ichi fynd trwy'r cwrs astudio hwn?

Am syniadau ac adnoddau pellach ar gyfer plant ac ieuencid ymwelwch â www.uspg.org.uk/forsuchatime ■



Mae pobl yn byw yn y byd yma fel petai ganddynt blaned arall i fynd iddi

ASTUDIAETH 1

AR GYFER Y FATH AMSER

CAMAU CYNTAF

Cyn dechrau ar y siwrnai chwe-wythnos hon, gadewch inni dreulio ychydig amser yn ystyried y cwestiynau canlynol:

- Ym mha fodd ydym ni'n gwerthfawrogi'n cartref cyffredin, y Ddaear?
- Ym mha ffyrdd ydym ni'n gwerthfawrogi – neu ddim yn gwerthfawrogi – pob rhan o'r Cread, gan gynnwys bodau dynol eraill?

MEDDYLIAU O ACADEMI DDIWINYDDOL ASIA

Yn Uwchgynhadledd y Cenhedloedd Unedig (CU) ar newid hinsawdd yn 2019, cystwyodd Greta Thunberg y byd gan ddweud, 'Mae pobl yn marw. Mae ecosystemau cyfan yn dadfeilio. Rydym ar gychwyn cyfnod o ddifodiant rhywogaethol ar raddfa anferth, a fedrwn chi ond siarad am arian a storïau tylwyth teg am dyfiant economaidd tragwyddol. Rhag eich

cywilydd chi!' Meddai'n broffwydol, 'Rydych wedi lladrata fy mreuddwydion a'm mh Bentleyndod gyda'ch geiriau gwag. Nid yw hyn yn iawn.' Nid yw Greta ar ei phen ei hun. Mae ymgyrchwyr ifanc ar draws y byd yn ddig am fod eu dyfodol wedi ei 'werthu' er mwyn i nifer bach o bobl gronni ffortiwn sydd y tu hwnt i'n dychymyg. Mae'n nhw'n iawn i fod yn ddig.

Mae dynolryw yn cyrraedd yn gyflym yr amser pan fydd angen mewnsyllu difrifol, kairos planedol pan fydd yn briodol i arweinwyr strwythurau crefyddol, cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol holi eu hunain er mwyn adnabod eu rôl yn yr argyfwng amgylcheddol sydd i ddod. Twyllwyd cymdeithas gan ein hanes diweddar i gredu fod twf economaidd a ffyniant yn gyfystyr â bywyd da. Nid oes gan anghenion dynol an-faterol, megis cariad, ffydd ac anghenion ysbrydol unrhyw le rhesymol yn ymdrechion y ddynolryw i gyrraedd y bywyd da hwn. Deil twf i fod yn unig amcan y drefn economaidd, tra bod y rhesymeg hon yn argymhell y bydd systemau economaidd yn dadfeilio heb gynydd mewn cynhyrchiant a defnydd. Yn y naratif hon, adeiledir ffyniant ar y gred ffals fod bodau dynol yn hanfodol hunanol, yn ceisio hyrwyddo pleser, hunaniaeth a grym personol.

Ein planed sy'n dioddef yn bennaf o ganlyniad i'r naratif ffals hon. Stori rannol yn unig yw'r ddadl fod twf economaidd parhaol yn bosibl o ganlyniad i gyflawniadau gwyddonol a thechnolegol a rheolaeth

effeithlon dros y system gynhyrchu.

Mae cynhyrchu yn dibynnu ar adnoddau naturiol. Ar hyn o bryd, mae twf yn dibynnu ar gloddio adnoddau'n ddilyffethair – a hynny yn ei dro yn arwain at ddiestrio rhinweddau bywydol natur.

Felly, gwelir y Ddaear fel gwrthrych yn unig wrth i'r economi gryfhau yn ei gwerth ariannol, a'r Ddaear ein Mam yn gwaedu. Yn aml, gelwir hyn yn 'gancr cyfalafiaeth', lle mae datblygiadau a dinistr wedi'u cyd-gloi i'w gilydd. Felly, y mae twf a marwolaeth yn gysylltiedig â'i gilydd. Yn stori'r dilyn yn Genesis, roedd dinistr y Ddaear yn ganlyniad pechod y ddynolryw. Disgrifia awdur Genesis y pechodau hyn fel anghyfiawnder a'r drygioni sy'n arwain at fywyd hedonistaidd, gyda phleser fel ei unig amcan.

Ing Duw yn dilyn dinistr y Cread oedd y catalydd i gyfamod cadwraeth newydd. Ac fel arwydd o'r cyfamod, cytunodd Duw i osod y bwa (symbol o awdurdod a grym mewn hen ddiwyllianau) ar draws y Cread. A disgwyliwyd fod y bobl yn parchu bywyd ('Peidiwch bwyta cnaud gyda gwaed').



'Rydych wedi lladrata fy mreuddwydion a'm mh Bentleyndod gyda'ch geiriau gwag. Nid yw hyn yn iawn.'



Cynigiodd y cyfamod hwn gyfres newydd o egwyddorion llywodraethu yn seiliedig ar gydberthynas foesol rhwng pobl, natur a Duw. Gwrthododd y drefn hierarchaidd a welodd 'yr arall' fel gwrthrych yn unig, gan nodi'n benodol fod ecsbloetio'r Ddaear er mwyn ei defnyddio yn wrthryfel yn erbyn Duw.

Ymateb yw'r cyfamodau Beiblaidd i gariad hunan-aberthol, rhad a graslon Duw. Nid rhwng pobl a Duw yn unig y gwnaed y cyfamod cadwraeth wedi'r dilyw. Yn hytrach fe'i gwnaed â chwi ac â'ch had

ar eich ôl, ac â phob creadur byw gyda chwi, yn adar ac anifeiliaid, a'r holl fwystfilod gwyllt sydd gyda chwi.' Mae'r term 'cyfamod' yn cadarnhau'r syniad fod Duw'n parchu pobl a natur. Ymhellach, mae'r testun yn ein hatgoffa nad yw pobl uwchlaw natur. Mae'n ailadrodd y thema Feiblaidd fod adfer y berthynas doredig rhwng natur, pobl a Duw yn gonsyrn sylfaenol.

Daw'r uchod o erthygl hirach y gallwch ddod o hyd iddi ar:

www.uspg.org.uk/forsuchatime

CWESTIYNAU

- Beth yw'ch ymateb i'r dyfyniad gan Greta Thunberg?
- Ym mha ffyrdd ydym ni yn cadarnhau'r syniad fod 'twf economaidd a ffyniant yn gyfystyr â bywyd da' yn ein bywydau unigol neu gorfforaethol?
- 'Wrth i'r economi gryfhau yn ei gwerth ariannol mae'r Ddaear ein Mam yn gwaedu.' Beth yw'ch ymateb i'r datganiad hwn?

GENESIS 9:8-13

- ⁸ Llefardodd Duw wrth Noa a'i feibion, a dweud,
⁹ 'Dyma fi'n sefydlu fy nghyfamod â chwi ac â'ch had ar eich ôl,
¹⁰ ac â phob creadur byw gyda chwi, yn adar ac anifeiliaid, a'r holl fwystfilod gwyllt sydd gyda chwi, y cwbl a ddaeth allan o'r arch.
¹¹ Sefydlaf fy nghyfamod â chwi, rhag torri ymaith eto bob cnawd trwy ddyfroedd dilyw, na bod dilyw arall i ddifa'r ddaear.'
¹² A dywedodd Duw, "Dyma a osodaf yn arwydd o'r cyfamod yr wyf yn ei wneud â chwi ac â phopeth byw gyda chwi tros oesoedd di-rif:
¹³ gosodaf fy mwa yn y cwmwl, a bydd yn arwydd cyfamod rhyngof a'r ddaear.

CWESTIYNAU

- Beth mae'r syniad o gael eich gwahodd i fod mewn cyfamod yn ei olygu i chi?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n teimlo'ch bod chi'n 'rhan o natur'?
- Disgrifiwch y ffyrdd yr ydych chi'n teimlo'n gyfrifol am natur neu rhowch enghreifftiau o weithgareddau ymarferol yr ydych wedi eu cyflawni i gefnogi natur.
- Sut ddylai hyn effeithio ar y ffordd yr ydym yn meddwl, fel eglwys neu fel cymuned fyd-eang?

GWEDDI

Dduw'r creu, wyt yn anadlu i fod dy fywyd dy hun, rhoddaist i ni rodd bywyd: fe'n gosodaist ar y Ddaear gyda'i mwynau a'i dyfroedd, ei blodau a'i ffrwythau, ei chreaduriaid byw gyda'u swyn a'u harddwch. Rhoddaist inni ofal dros y Ddaear.

Dysg inni, Dduw y caru a'r creu, fod y Ddaear a'i llawnder yn perthyn i ti, y byd a phopeth sy'n byw ynddo.

Galw ni eto fyth i warchod rhodd bywyd.

Cynhadledd Gristnogol Asia

GWEITHREDU

Yr wythnos hon edrychwch i weld faint o egni yr ydych wedi ei ddefnyddio. Cymerwch gamau i leihau y trydan, nwy, glo neu olew a ddefnyddiwyd yn eich cartref. Beth am geisio defnyddio bylbiau golau egni-ffeithlon? Trowch eich thermostat i lawr 2 radd. Defnyddiwch 'geffyl dillad' yn lle peiriant sychu trydanol. Ystyriwch gael Mesurydd Smart (rhad) i'ch helpu i weld ble ydych yn defnyddio'r rhan fwyaf o'ch egni ac efallai weld ble gallech leihau'ch defnydd.

Am bob gweithred rhowch £1 yn y Blwch neu Jar Grawys. ■

ASTUDIAETH 2 Y CREAD

CAMAU CYNTAF

Yn Astudiaeth 1, boom yn edrych ar yr argyfwng sy'n wynebu'r byd a chydabod mai'n hunanoldeb a'n blys ni sy'n bennaf gyfrifol. Cododd hyn y cwestiwn: A fwriadwyd i bethau fod fel hyn? Ai dyma oedd bwriad y Crëwr? Beth feddylwch chi?

MEDDYLIAU O EGLWYS ESGOBOL Y PILIPINAS

gan y Parchedcaf Renato Abibico, cyn Brif Esgob,
Eglwys Esgobol y Pilipinas (EEP)

Yn hanesyddol, mae gwaith cenhadol Eglwys Esgobol y Pilipinas wedi canolbwyntio ar, ac yn dal i dyfu ymhlith, y cymunedau brodorol yn rhannau gogleddol a deheuol Ynysoedd y Pilipinas. Bu hyn yn fendith ac yn rhodd, gan fod y cymunedau hyn wedi parhau'n ffurfiannol wrth lunio diwinyddiaeth EEP gyda'u persbectif brodorol sydd mewn cytgorod llawnach

â'r gorchymyn Beiblaidd i ddynolryw ofalu am a bod yn stiwardiaid dros y Cread.

I genedlaethau o bobl brodorol sy'n perthyn i lwythau Cordillera a Lumad, mae bodau dynol yn rhannu'r Ddaear gydag ysbrydion coed, afonydd, brynau a mynyddoedd. Y mae'r gred hon yn ysbrydoli parchedig ofn ac yn rhwystro'r credinwyr rhag cam drin neu

niweidio natur – gan fod unrhyw weithred o'r fath yn gwahodd barn ddwyfol ar ffurf salwch, anffawd neu drychineb. Dim ond trwy ddefodau neu aberthau priodol i'r ysbrydion a droseddwyd y gellir wedyn foddhau'r ysbrydion hyn. Ymgorfforir y byd-olygon hyn yng nghysyniad yr Igorot o Inayan. Y mae'r cysyniad hwn yn mynnu fod yn rhaid i berson wneud i eraill (neu i natur) yr hyn y mae ef neu hi yn dymuno cael ei wneud iddynt hwy neu fe fydd y drwg a wnaed yn dychwelyd at y sawl a'i cyflawnodd. Parha'r cysyniad hwn i fod yn ddylanwadol ar ddiwinyddiaeth a chenhadaeth yr Eglwys, er iddo gael ei addasu i ddealltwriaeth Gristnogol mai gyda Duw y mae'r ddynolryw yn rhannu'r ddaear. Yn ogystal, cadarnhawyd ysbryd defodau glanhad ac aberth y cymunedau hyn yn hunanaberth Iesu Grist i achub y byd ac i ddangos y ffordd at fywyd o gariad a chyfiawnder. Ond wrth i ddynolryw barhau i droi cefn ar y Creawdwr, mae rhybudd Inayan yn cael ei gadarnhau gan Esea 24.4-6: 'Gwywodd y Ddaear a chrino, dihoenodd y byd ac edwino, dihoenodd uchelfeydd y ddaear. Halogwyd y Ddaear gan ei phreswylwyr, am iddynt dorri'r cyfreithiau, newid y deddfau a diddymu'r cyfamod tragwyddol. Am hynny, fe ysir y wlad gan felltith, a chosbir ei thrigolion; am hynny hefyd fe â'r trigolion yn llai a llai, ac ychydig fydd yn weddill.'



Halogwyd y Ddaear gan ei phreswylwyr, am iddynt dorri'r cyfreithiau

diroedd hynafiaid y cymunedau brodorol, lle mae buddiannau masnachol yn cloddio am fwynau a lle mae diwydiannau yn rhwygo coed o'r fforestydd, yn cloddio'r mynyddoedd, yn gwenwyno tir amaethyddol ac yn llygru afonydd a llynnoedd. Yn anffodus, y cymunedau hyn a'r mwyafrif o boblogaeth y Pilipinas sy'n dioddef effeithiau trychinebus hyn oll, tra bod y rhai sy'n gyfrifol am y gweithgaredd niweidiol hwn yn elwa'n sylweddol yn economaidd. Felly, mae cenhadaeth yr Eglwys i warchod cyfanrwydd y Cread ac adnewyddu bywyd y Ddaear wedi dod yn fater brys ac o'r arwyddocâd mwyaf. Caiff gwaith yr Eglwys yn condemnio'r gweithgareddau dinistriol hyn ei gefnogi drwy ei gwaith cymunedol er mwyn gwella bywoliaethau a chynyddu datblygiad. Trwy hyn, caiff pobl eu cynorthwyo i ymdopi â'r dinistr a achosir gan eraill tra'n parchu cysegredigrwydd y Cread.



Y mae'r Pilipinas yn wlad ddiwylliannol amrywiol ac yn gartref i tua 14-17 miliwn o Bobloedd brodorol sy'n perthyn i 110 o grwpiau ethno-ieithyddol. Personau *Lumad* yw'r term am nifer o grwpiau o bobl brodorol a leolir yn Ne'r Pilipinas a disgrifia Igorot nifer o grwpiau o fynyddoedd Cordillera yng ngogledd y Pilipinas.

CWESTIYNAU

- Pa gysylltiadau fedrwrch chi eu gweld rhwng y stori hon ac Astudiaeth 1 yn nhermau'r modd yr ydym yn gwerthfawrogi'r Cread?
- Fel Cristnogion, sut fedrwn ni ddysgu oddi wrth fyd-olygon eraill?
- Sut y gallwn sicrhau fod byd-olygon a lleisiau brodorol yn cael eu clywed a ddim yn mynd ar goll?
- Ble yn ein gwledydd ni y mae byd-olygon "sydd mewn cytgord llawnach â'r gorchymyn Beiblaidd i ddynolryw ofalu am a bod yn stiwardiaid dros y Cread"? Sut y maent yn dylanwadu ar ein dealltwriaeth ni?

SALM 19:1-6

- ¹ Y mae'r nefoedd yn adrodd gogoniant Duw, a'r ffurfafen yn mynegi gwaith ei ddwylo.
- ² Y mae dydd yn llefaru wrth ddydd, a nos yn cyhoeddi gwybodaeth wrth nos.
- ³ Nid oes iaith na geiriau ganddynt, ni chlywir eu llais;
- ⁴ eto fe â eu sain allan drwy'r holl ddaear a'u lleferydd hyd eithafoedd byd. Ynddynt gosododd babel i'r haul,
- ⁵ sy'n dod allan fel priodfab o'i ystafell, yn llon fel campwr yn barod i redeg cwrs.
- ⁶ O eithaf y nefoedd y mae'n codi, a'i gylch hyd yr eithaf arall; ac nid oes dim yn cuddio rhag ei wres.

CWESTIYNAU

- Paentia'r Salmydd ddarlun o'r Cread sydd bron yn iwtopaidd. Mewn gwirionedd, gwyddom fod blys a phechod dynol wedi sarnu hynny. Beth yw'ch dirnadaeth chi o'r Cread cyn y Cwmp?
- Pan gymharwch y ddelwedd hon o'r Cread â'r stori o'r Pilipinas, sut mae hynny yn peri ichi deimlo am y modd 'rydym wedi niweidio'r ddaear?

MYFYRDOD I GLOI A GWEDDI

Mae datganiad Y Pab Francis, *Laudato Si*, yn ein helpu i weld y dylem fod yn agored i syniadau a ieithwedd sy'n ein dwyn i galon yr hyn ydyw i fod yn ddynol. Yn union fel sy'n digwydd pan yn syrthio mewn cariad, pan fyddai Sant Ffransis yn syllu ar yr haul, y lloer a'r anifeiliaid lleiaf, byddai'n byrstio allan i ganu, gan ddwyn yr holl greaduriaid eraill i mewn i'w foliant ef. Byddai mewn cymundeb gyda'r Cread cyfan, gan bregethu i'r blodau hyd yn oed, gan eu gwahodd i 'glodfori'r Arglwydd, yn union fel petaent yn fodau rhesymol.'

GWEDDI DROS Y DDAEAR — LAUDATO SI (Y PAB FFRANSIS)

Dduw hollalluog, 'rwy'ti'n bresennol yn y bydysawd cyfan ac yn y lleiaf o'th greaduriaid.

'Rwy'ti yn cofleidio'n dyner bopeth sy'n bod.

Tywallt arnom rym dy gariad,

fel y gallwn amddiffyn bywyd a phrydferthwch.

Llanw ni â thangnefedd, fel y gallwn fyw

fel brodyr a chwiorydd, heb niweidio neb.

O Dduw y tlodion,

helpa ni i achub rhai anghofiedig y Ddaear, sydd mor werthfawr yn dy olwg di.

Dwg iachâd i'n bywydau,

fel y gallwn amddiffyn y byd yn hytrach na'i ecsbloetio,

a hau prydfferthwch, yn hytrach na llygredd a dinistr.

Cyffwrdd galonnau'r sawl sy'n chwilio yn unig am elw ar draul y tlodion a'r Ddaear.

Dysg inni ddarganfod gwerth pob un peth,

fel y gallwn ryfeddu ynddynt a myfyrio arnynt

ac fel y gallwn gydnabod ein bod mewn undod dwfn

â phob creadur

wrth inni deithio tuag at y goleuni diderfyn.

Diolchwn i ti am fod gyda ni bob dydd.

Gweddiwn am iti'n calonogi yn ein hymdrechion

dros gyfiawnder, cariad a thangnefedd. Amen.

© *Hawlfraint Libreria Editrice Vaticana. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd.*

GWEITHREDU

Yr wythnos hon sylwch ar faint o blastig yr ydych yn ei ddefnyddio.

Mae o leiaf 8 miliwn tunnell o blastig yn cronni yn ein cefnforoedd bob blwyddyn. Caiff anifeiliaid y môr eu maglu mewn plastig yn aml a chael eu clwyfo a'u lladd. Rhwch ddirwy o 20c i'ch hunan am bob potel, pot neu fag plastig a ddefnyddiwyd yr wythnos hon. ■

ASTUDIAETH 3 Y CWYMP

CAMAU CYNTAF

Hyd yn hyn, buom yn edrych ar gynllun Duw ar gyfer y Cread. A ninnau'n gwerthfawrogi sut mae ansawdd ein perthynas â'n gilydd yn effeithio'r modd yr ydym yn masnachu yn ein cymdeithasau mwy neu lai cyfalafol ni, beth fedrwn ni ddysgu o stori'r 'Cwymp'? Ble aethom ni o le? Pa gysylltiadau ellir eu gwneud rhwng ein ymwrthod o egwyddorion Duw, ein hecsbloetio o bobl eraill a'n camddefnydd o'r blaned?

MEDDYLIAU O ESGOBAETH BELIZE, EGLWYS TALAITH INDIA'R GORLLEWIN

Gan y Gwir Barchedig Philip Wright, Esgob Belize



Bu Darmine a Kenton yn ffrindiau ers yn blant. 'Roeddent yn mynychu Eglwys Gadeiriol Sant Ioan yn Belize pan oeddent yn tyfu ac 'roeddent yn weithgar yn y weinidogaeth ymhlith ieuenctid yn eu harddegau. Dros y pymtheg mlynedd diwethaf bu'r ddau ŵr ifanc yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth. Dechreuodd Darmine ei gwmi ei hun, Five Star Excursions and Adventure, yn cynnig gweithgareddau megis tiwbio mewn ogofau a disgyn ar wifrau gwib. Dechreuodd Kenton weithio gyda chwmi dosbarthu bwyd yn nhref San Pedro, un o gyrchfannau twristiaid mwyaf poblogaidd Belize, ond wedyn bu'n gweithio fel tywysydd twristiaid a hyfforddwr snorkelu. Tua deng mlynedd yn ôl, ymunodd y ffrindiau plentynod eu busnesau â'i gilydd. 'Roedd eu busnes yn mynd yn eithaf da.

Ond cafodd y sector twristiaeth ei effeithio'n enbyd gan Covid-19. O

fewn ychydig wythnosau, cafodd Darmine a Kenton eu hunain heb incwm rheolaidd ac yn gorfod byw ar eu cynilion a rhaglen gymorth y llywodraeth. Fe wnaethant ddarganfod yn fuan mor hawdd ydoedd i gwmiâu bychain fel hwythau gael eu cau allan o gael mynediad cyfartal i'r math ar adnoddau allai eu helpu i ddod dros y sefyllfa mewn pryd. 'Roedd cwmniâu a buddsoddwyr mwy yn medru ffurfio cynghreiriau gyda grwpiau dethol, a thrwy hynny rwystro cydweithio posibl ymhlith busnesau llai. Bellach mae'r ddau ŵr ifanc wedi mentro i fusnes arall yn delio ag archebu a dosbarthu bwyd i gartrefi pobol.

Pan ofynnwyd iddynt am y gwersi y bu iddynt ddysgu, mae Darmine a Kenton yn tynnu sylw at bwysigrwydd pethau megis cael ffydd yn Nuw, yr angen i fod yn ostyngedig, doethineb byw yn ddarbodus a gwerth y teulu.

CWESTIYNAU

- Beth fu'ch profiadau chi yn ystod pandemig Covid-19 a sut maent yn cymharu â phrofiadau Darmin a Kenton yn y stori?
- Sut fedrwch chi gysylltu'n bersonol â'r gwersi y maent hwy wedi eu dysgu o ganlyniad i'r pandemig?

MALACHI 3:6-12

- ⁶ 'Oherwydd nid wyf fi, yr ARGLWYDD, yn newid, ac nid ydych chwithau'n peidio â bod yn blant Jacob.
- ⁷ O ddyddiau eich hynafiaid, troesoch oddi wrth fy neddfau a pheidio â'u cadw. Dychwelwch ataf fi, a dychwelaf finnau atoch chwi," medd ARGLWYDD y Lluoedd.
'A dywedwch, 'Sut y dychwelwn?'
- ⁸ A ysbeilia rhywun Dduw? Eto yr ydych chwi yn fy ysbeilio i.
A dywedwch, 'Sut yr ydym yn dy ysbeilio?'
'Yn eich degymau a'ch cyfraniadau.
- ⁹ Fe'ch melltithiwyd â melltith am eich bod yn fy ysbeilio i, y genedl gyfan ohonoch.
- ¹⁰ Dygwch y degwm llawn i'r trysordy, fel y bo bwyd yn fy nhŷ. Profwch fi yn hyn," medd ARGLWYDD y Lluoedd, "nes imi agor i chwi ffenestri'r nefoedd a thywallt arnoch fendith yn helaeth.
- ¹¹ Ceryddaf hefyd y locust, rhag iddo ddifetha cynnyrch eich tir a gwneud eich gwinwydden yn ddiffrwyth," medd ARGLWYDD y Lluoedd.
- ¹² "Yna bydd yr holl genhedloedd yn dweud, 'Gwyn eich byd', oherwydd byddwch yn wlad o hyfrydwch," medd ARGLWYDD y Lluoedd.

CWESTIYNAU

- Ym mha ffyrdd ydym ni'n 'ysbeilio Duw' neu'n lladrata oddi wrth Dduw pan nad ydym yn gofalu am Gread Duw?
- Ym mha ffyrdd y mae gennym heddiw fendithion helaeth nad oes gennym ddigon o le i'w storio (ad 10)? Sut ydym wedi cymryd y bendithion hyn yn ganiataol?
- Sut mae arfer Cristnogion o feddwl am 'lywodraethu' dros y ddaear (Genesis 1.28) wedi cyfrannu at ddinistrio'r berthynas rhwng Duw, pobl a'r Ddaear?
- Beth mae pandemig Covid-19 wedi ei ddysgu inni am y berthynas rhwng Duw, pobl a'r Ddaear?

GWEDDI I GLOI

Hollalluog Dduw, tywys ni wrth inni roi trefn ar ein bywydau a'n perthynas â thi, â'n gilydd ac â natur. Boed i'n perthnasoedd gael eu hadeiladu ar ymddiriedaeth, gonestrwydd, uniondeb, parch a chariad. Helpa ni i geisio dy ewyllys berffaith ym mhob dim a phan fyddwn wedi ei wir ddirnad, dyro inni'r gwroldeb i'w gyflawni er dy anrhydedd a'th ogoniant. Boed inni weithredu bob amser er budd eraill yn ogystal â ni'n hunain – gan geisio daioni i bawb yn y cyfan a wnawn. Boed i'n hymdrechion i sicrhau cyfiawnder a heddwch yn ein cartrefi, ein heglwysi ac mewn cymunedau gymryd o ddifri werth cynhenid pob un o'th blant a grëwyd ar dy lun a'th ddelw di. Gofynnwn hyn yn enw dy Fab, ein Harglwydd a'n Gwardwr, Iesu Grist.

GWEITHREDU

Yr wythnos hon edrychwch ar sut ydych yn defnyddio dŵr. Cymrwch gamau i leihau'ch defnydd o ddŵr. Trowch y tap i ffwrdd wrth frwsio'ch dannedd. Amserwch eich cawod ac yna torrwrch yr amser a dreuliwch yn y gawod i lawr i'r hanner. Defnyddiwch y cylch byr ar eich golchydd llestri a gwnewch yn siŵr ei fod yn llawn bob tro.

Am bob gweithred rhowch £1 yn eich Blwch neu Jar Grawys ■

ASTUDIAETH 4

GWAREDIGAETH

CAMAU CYNTAF

'Rydym yn symud ymlaen i'r Testament Newydd. Cred Cristnogion fod Duw yn cynnig gobaith inni hyd yn oed pan mae popeth yn ymddangos yn ddiobaith. Gobaith nid yn unig i ni'n hunain ond i'r Cread. "Mae gan obaith ddwy ferch brydferth. Eu henwau yw Dicter a Gwroldeb; Dicter am sut y mae pethau, a Gwroldeb i sicrhau nad ydynt yn parhau fel y maent" (Sant Awstin o Hippo). Nid yw pethau'n ddiobaith: '...Prawf Duw o'r cariad sydd ganddo tuag atom ni yw bod Crist wedi marw drosom pan oeddem yn dal yn bechaduriaid' (Rhufeiniaid 5.8).

MEDDYLIAU O MOZAMBIQUE

Gan y Gwir Barchedig Carlos Matsinhe, Esgob Lebombo

Gwna lleoliad daearyddol unigryw Mozambique yn ne-ddwyrain Affrica y wlad yn agored iawn i drychinebau a achosir yn uniongyrchol gan newid hinsawdd byd-eang. Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, cafodd y wlad ei difrodi gan sychder mawr yn y canoldir a'r de, trowyntoedd dinistriol a llifogydd blynyddol bron – yn arbennig yn y canoldir a'r gogledd. Mae'r rhain yn hawlio nifer o fywydau bob blwyddyn, ac yn tagu'n llwyr unrhyw bosibilrwydd o dyfiant economaidd arwyddocaol. Yn 2019, cafodd y Trowynt Idai effaith sylweddol ar fywydau dros bedwar miliwn o bobl. Tan heddiw, methodd llawer ohonynt ailadeiladu'r cartrefi a ddifrodwyd. Dinistriwyd llawer o'r strwythurau cymdeithasol, gan adael pobl yn fwy digalon na chynt. Daeth tlodi a newyn yn brofiad tymor-hir ar waethaf agwedd ddewr y boblogaeth wledig a'r parodrwydd i weithio'n galed. Ychwanegwch at y gymysgedd hon wrthdaro gwleidyddol, terfysgaeth, llwgrwobrwyo a'r problemau a greir gan yr argyfwng hinsawdd ac ecolegol, ac ymddengys fod dyfodol Mozambique yn dywyll iawn, er bod y wlad yn gyfoethog

mewn adnoddau naturiol.

Yn unol â phumed nod cenhadol y Cymundeb Anglicanaidd, mae Esgobaethau Lebombo, Niassa a Nampula yn ymdrin â'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Maent yn cynnwys eu haelodau mewn prosiectau adnewyddu, gan gynnig addysg am sut mae gwrthsefyll mewn argyfwng, cyfranogi mewn ymatebion i'r argyfwng a chydweithio gyda sefydliadau cenedlaethol eraill i hyrwyddo ymateb i newid hinsawdd. Un enghraifft fechan o waith yr eglwys yw fod rhaid i ymgeiswyr am gonffirmasiwn blannu coed fel rhan o'u sacrament. Mae nifer o gylchoedd ieuenticid yn cyfranogi mewn prosiectau lleihau llygredd a phlannu coed.

'Rydym yn siŵr y bydd mesurau a pholisïau byd-eang i adfer cyfanrwydd y Cread yn galluogi goroesiad, bywyd gwell ac yn dwyn y blaned i'w photensial llawn fel man a fendithir gan Dduw er mwyn y Cread cyfan. Rhaid i bwerau'r byd atal eu blys a'u dinistr anghyfrifol o adnoddau naturiol er mwyn achub dyfodol y blaned i bawb.



Rhaid i bwerau'r byd atal eu blys a'u dinistr anghyfrifol o adnoddau naturiol er mwyn achub dyfodol y blaned i bawb



CWESTIYNAU

- Mae'r Eglwys Anglicanaidd ym Mozambique yn ymateb mewn ffyrdd ymarferol i'r argyfwng hinsawdd ac ecolegol. Ym mha ffyrdd y mae'ch eglwys chi yn delio â hyn?
- Y Pumed Nod Cenhadaeth yw: 'I geisio gwarchod cyfanrwydd y Cread a chynnal ac adnewyddu bywyd ar y Ddaear.' Ym mha ffyrdd y mae'ch eglwys chi yn rhoi blaenoriaeth i hyn?
- Yn dilyn penderfyniad Corff Llywodraethol yr Eglwys yng Nghymru ym Medi 2017, anogir pob eglwys ac esgobaeth yng Nghymru i ddilyn cynllun Eco-Eglwys ac Eco-Esgobaeth *A Rocha* (gweler <https://ecochurch.arocha.org.uk/> am fwy o fanylion). Beth mae'ch eglwys neu'ch esgobaeth chi yn ei wneud mewn ymateb i hyn? Beth am fynd ati i ddarganfod mwy am y cynlluniau a threfnu gweithgarwch newydd? (Gallwch wybod mwy am y materion hyn trwy edrych hefyd ar wefan Eglwys Loegr: <https://www.churchofengland.org/more/policy-and-thinking/our-views/environment-and-climate-change>)

RHUFENIAID 8: 18-30

- ¹⁸ Yr wyf fi'n cyfrif nad yw dioddefiadau'r presennol i'w cymharu â'r gogoniant sydd ar gael ei ddatguddio i ni.
- ¹⁹ Yn wir, y mae'r greadigaeth yn disgwyl yn daer am i blant Duw gael eu datguddio.
- ²⁰ Oherwydd darostyngwyd y greadigaeth i oferedd, nid o'i dewis ei hun, ond trwy'r hwn a'i darostyngodd,
- ²¹ yn y gobaith y câi'r greadigaeth hithau ei rhyddhau o gaethiwed a llygredigaeth, a'i dwyn i ryddid a gogoniant plant Duw.
- ²² Oherwydd fe wyddom fod yr holl greadigaeth yn ochneidio, ac mewn gwewyr drwyddi, hyd heddiw.
- ²³ Ac nid y greadigaeth yn unig, ond nynti sydd â blaenffrwyth yr Ysbryd gennym, yr ydym ninnau'n ochneidio ynom ein hunain wrth ddisgwyl ein mabwysiad yn blant Duw, sef rhyddhad ein corff o gaethiwed.
- ²⁴ Oherwydd yn y gobaith hwn y cawsom ein hachub. Ond nid gobaith mo'r gobaith sy'n gweld. Pwy sy'n gobeithio am yr hyn y mae'n ei weld?
- ²⁵ Yr hyn nad ydym yn ei weld yw gwrthrych gobaith, ac felly yr ydym yn dal i aros amdano mewn amynedd.
- ²⁶ Yn yr un modd, y mae'r Ysbryd yn ein cynorthwyo yn ein gwendid. Oherwydd ni wyddom ni sut y dylem weddio, ond y mae'r Ysbryd ei hun yn ymbil trosom ag ocheneidiau y tu hwnt i eiriau,
- ²⁷ ac y mae Duw, sy'n chwilio calonnau dynol, yn deall bwriad yr Ysbryd, mai ymbil y mae tros y saint yn ôl ewyllys Duw.
- ²⁸ Gwyddom fod Duw, ym mhob peth, yn gweithio er daioni gyda'r rhai sy'n ei garu, y rhai sydd wedi eu galw yn ôl ei fwriad.
- ²⁹ Oherwydd, cyn eu bod hwy, fe'u hadnabu, a'u rhagordeinio i fod yn unffurf ac unwedd â'i Fab, fel mai cyntafanedig fyddai ef ymhlith pobl lawer.
- ³⁰ A'r rhai a ragordeiniodd, fe'u galwodd hefyd; a'r rhai a alwodd, fe'u cyfiawnhaodd hefyd; a'r rhai a gyfiawnhaodd, fe'u gogoneddodd hefyd.

CWESTIYNAU

- Ym mha ffyrdd y gallwch chi weld y Cread 'yn ochneidio ac mewn gwewyr (esgor) drwyddo...' yn yr argyfwng ecolegol a hinsawdd presennol?
- 'Oherwydd yn y gobaith hwn y cawsom ein hachub.' Beth yw'n gobaith ni a sut y gallwn ei gyflawni fel unigolion ac fel rhan o gymuned yr eglwys?
- Sut y gallwn fod yn rhan o eglwys sy'n cynnig esiampl fyw o fod yn gyfartal a chynhwysol, ac sy'n cynnig llais grymus dros cyfiawnder a chyd-rannu?

GWEDDI I GLOI

Mae'n hinsawdd yn newid, a ni sy'n ei newid. Cyffeswn effaith ein ôl-troed carbon, ein methiant i ystyried canlyniadau ein gweithredoedd, ein harafwch i ymateb. 'Rydym yn edifarhau am yr adegau hynny pan oeddem yn gwybod beth oedd yn iawn i'w wneud ond pan ddewisom, yn hytrach, yr hyn oedd yn gyfleus.

Caiff dy Ddaear ei hecsbloetio, ac yr ydym ni'n rhan o'r ecsbloetio. Collir rhywogaethau, erydir y pridd, mae y stoc bysgod yn gostwng ac adnoddau'n prinhau. Cyffeswn fod llawer ohonom wedi cymryd gormod, heb ystyried anghenion cenedlaethau i ddod.

Daethom yn ddefnyddwyr. Buom yn llygad ddall i flys. Cyffeswn ein dyhead am fwy, a'n methiant i werthfawrogi beth sydd gennym. 'Rydym yn byw mewn cyfnod o foethusrwydd anghymharol, ac edifarhawn am inni fethu â bod yn fwy gwerthfawrogl.

Caiff y tlawd eu gadael ar ôl, hyd yn oed yn yr oes hon o ddigonedd. Gwthiwyd hawliau dynol i'r naill ochr yn enw elw. Mae cyfoeth yn cronni i'r cyfoethog tra bod y tlawd yn dal i fod heb yr hyn sydd ei angen arnynt. Cyffeswn ein bod yn ddifater tuag at anghyfiawnder, a'n bod yn rhy fryslog wrth farnu eraill.

Nid dyma'r hyn ein creais ni i fod. Ni fuom yn ofalwyr da o ardd dy Ddaear. Nid ydym wedi caru ein cymdogion. Maddau inni, Dduw y Crëwr.

Maddau inni. Adnewyddu ni. Ysbrydola ni.

© Hawifraint Green Christian. Atgynhyrchwyd gyda chaniatâd.

GWEITHREDU

Peidiwch defnyddio'ch modur am wythnos. Yn lle gyrru cerddwch, seiclwch neu defnyddiwch drafnidiaeth gyhoeddus. Os yw hyn yn golygu fod cyrraedd manau yn cymryd mwy o amser defnyddiwch yr amser hyn i feddwl am beth ydych wedi'i ddsygu dros y chwech wythnos diwethaf.

Rhowch bris y petrol yr ydych wedi ei arbed yn eich Blwch neu Jar Grawys. ■

ASTUDIAETH 5

ADFERIAD

CAMAU CYNTAF

Trwy iachawdwriaeth credwn fod Duw yn adfer y Greadigaeth gyfan i fywyd newydd.

Geilw Duw ni i chwarae'n rhan ni i adfer Creadigaeth Duw.

MEDDYLIAU O EGLWYS DE INDIA

Cydnabyddir Eglwys De India (EDI) fel arweinydd yn yr ymdrech dros weithredu ecolegol yn India. Un o'r rhesymau dros hyn yw ei rhaglen Ysgolion Gwyrdd. Trwy'r rhain mae EDI yn ceisio ennyn mewn plant ac

ieuenctid ymwybyddiaeth o werth Dwyfol gofalu dros yr amgylchfyd. Cafodd y rhaglen Ysgolion Gwyrdd ei chymeradwyo gan Gyngor Eglwysi'r Byd a Fforwm Amgylchedd a Datblygiad y Cenhedloedd Unedig.



Dysgodd yr ysgol hon imi sut i arbed trydan, sut i arbed dŵr, sut i blannu coed a sut i ddatblygu yr amgylchedd."

Hamani, disgybl yn un o Ysgolion Gwyrdd India.

'Hyffordda blentyn ar ddechrau ei daith, ac ni thry oddi wrthi pan heneiddia.'

Diarhebiion 22.6



Bydd plant ysgol yn cymryd yr awenau i sicrhau bod eu hysgolion yn gyfeillgar tuag at yr amgylchedd. Maent yn cynnal 'gwerthusiad gwyrdd' o'u hysgolion, gan asesu eu perfformiad mewn meysydd megis ansawdd yr awyr a rheoli gwastraff. Gwnânt argymhellion ar sail eu casgliadau a bydd yr ysgolion yn addasu yn ôl y gofyn. Bydd pob ysgol sy'n rhan o'r cynllun yn penodi 60 disgybl i ofalu dros faterion ecolegol.



Yn yr Ysgol Sul, dylai plant gael eu hyfforddi mewn eco-ysbrydolrwydd, fel y gallant fyw eu bywyd o bersbectif ecolegol

Cydnabyddwyd y rhaglen Ysgolion Gwyrdd gan lywodraeth India fel un flaengar. O ganlyniad, gofynnwyd i Adran Materion Amgylcheddol EDI gydweithio gydag Adran Amgylchedd y llywodraeth i gynhyrchu cwricwlwm i'w ddefnyddio mewn ysgolion.

Mae EDI yn anelu at weithredu'r rhaglen ym mhob un o'i 1000 o ysgolion – nid yn unig i ddisgyblion ond i'w hathrawon hefyd. Daeth plant ysgol sy'n dilyn y rhaglen yn bleidwyr dros yr amgylchedd. Drwyddynt mae'r neges am ofalu dros y Cread yn cyrraedd nid yn unig eu hysgolion a'u cartrefi nhw ond yn ymestyn ymhellach, gan ddylanwadu ar eu bröydd a'r cymdogaethau ehangach. Bellach, mae'r rhaglen yn croesi cyfandiroedd hefyd: yn 2021, bydd 10 ysgol sy'n rhan o Ysgolion Gwyrdd India yn efeillio â 10 ysgol yn Esgobaeth Rhydychen.

Ochr yn ochr ag Ysgolion Gwyrdd, mae EDI wedi creu ystod eang o adnoddau amgylcheddol, yn cynnwys llyfrau Storiâu Gwyrdd ar gyfer plant Ysgolion Sul a Duw Gwyrdd y Beibl, a gyhoeddwyd ym Medi 2020. 'Yn yr Ysgol Sul, dylai plant gael eu hyfforddi mewn eco-ysbrydolrwydd, fel y gallant fyw eu bywyd o bersbectif ecolegol,' meddai D Ratnakara Sadananda, Cyn-ysgrifennydd Cyffredinol synod EDI.

CWESTIYNAU

- Pam ydyw'n bwysig i gael plant i feddwl o fore oes am sut y gallant gymryd gwell gofal dros y Cread yn eu bywyd bob dydd?
- Oherwydd llwyddiant Ysgolion Gwyrdd, mae llywodraeth India a Fforwm Amgylchedd a Datblygiad y Cenhedloedd Unedig yn ymgynghori yn awr ag Eglwys De India ar faterion amgylcheddol. Fedrwch chi feddwl am feysydd lle gallai eich eglwys chi gyd-weithio â chyrrff y llywodraeth er lles cyffredin?
- Cyhoeddodd EDI lyfr â'r teitl Duw Gwyrdd y Beibl. Pa storïau gredwch chi sy'n dangos gofal a chonsyrn Duw dros yr amgylchedd orau?
- Mae rhai ysgolion sy'n ymwneud ag Ysgolion Gwyrdd India yn eifeillio yn awr gydag ysgolion yn Rhydychen. Pa syniadau sydd gennych chi i gymell ieuencid yn eich eglwys chi i feithrin perthynas gyda ieuencid yn rhannau eraill o'r byd?

LUC 2: 41-52

- ⁴¹ Byddai ei rieni yn teithio i Jerwsalem bob blwyddyn ar gyfer gŵyl y Pasg.
- ⁴² Pan oedd ef yn ddeuddeng mlwydd oed, aethant i fyni yn unol â'r arfer ar yr ŵyl,
- ⁴³ a chadw ei dyddiau yn gyflawn. Ond pan oeddent yn dychwelyd, arhosodd y bachgen Iesu yn Jerwsalem yn ddiarwybod i'w rieni.
- ⁴⁴ Gan dybio ei fod gyda'u cyd-deithwyr, gwnaethant daith diwrnod cyn dechrau chwilio amdano ymhlith eu perthnasau a'u cydnabod.
- ⁴⁵ Wedi methu cael hyd iddo, dychwelsant i Jerwsalem gan chwilio amdano.
- ⁴⁶ Ymhen tridiau daethant o hyd iddo yn y deml, yn eistedd yng nghanol yr athrawon, yn gwrandao arnynt ac yn eu holi;
- ⁴⁷ ac yr oedd pawb a'i clywodd yn rhyfeddu mor ddeallus oedd ei atebion.
- ⁴⁸ Pan welodd ei rieni ef, fe'u syfrdanwyd, ac meddai ei fam wrtho, "Fy mhlentyn, pam y gwnaethost hyn inni? Dyma dy dad a minnau yn llawn pryder wedi bod yn chwilio amdananat."
- ⁴⁹ Meddai ef wrthynt, "Pam y buoch yn chwilio amdananaf? Onid oeddech yn gwybod mai yn nhŷ fy Nhaf y mae'n rhaid i mi fod?"
- ⁵⁰ Ond ni ddeallasant hwy y peth a ddywedodd wrthynt.
- ⁵¹ Yna aeth ef i lawr gyda hwy yn ôl i Nasareth, a bu'n ufudd iddynt. Cadwodd ei fam y cyfan yn ddiogel yn ei chalon.
- ⁵² Ac yr oedd Iesu yn cynyddu mewn doethineb, a maintoli, a ffafr gyda Duw a'r holl bobl.

CWESTIYNAU

- Yn aml, clywir 'llais proffwydol yr Eglwys' ar ei uchaf a'i egluraf trwy ei phobl ifanc. Sut y mae'ch eglwys chi yn gwrandao ar leisiau bobl ifanc? Sut y gallwn weithio'n fwy effeithiol fel cymuned o genedlaethau gwahanol?
- Yn y deml, mae Iesu'n ein hatgoffa o ddoethineb ac arweiniad ieuencid. Sut mae'ch cymuned chi yn cymell arweiniad ieuencid?
- Mae cyfiawnder ecolegol yn flaenoriaeth i lawer o bobl ifanc. Beth mae hyn yn ei olygu i genhadaeth yr eglwys?

GWEDDI I GLOI

Dad y tosturi diddiwedd,
 'rwyf yn gweld dy blant yn tyfu
 mewn byd ansicr a dryslyd:
 dangos iddynt ffordd y bywyd,
 galluoga nhw i oresgyn methiant a rhwystredigaeth,
 i ddal gafael yn eu ffydd ynot ti
 ac i gadw'n fyw eu llawenydd yn dy Gread di;
 trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Eglwys Talaith Deheudir Affrica

GWEITHREDU

Yr wythnos hon anogwch y plant a'r ieuencid yn eich eglwys i gyfranogi. Trefnwch ymgyrch casglu sbwriel noddedig.

Gofynnwch i bawb fynd i grwpiau bach a threfnu lle ac amser ar gyfer casglu sbwriel. Gofynnwch i bawb sicrhau nawdd am y nifer o fagiâu a gesglir.

Am adnoddau a chymorth gyda'ch cynlluniau casglu sbwriel ymwelwch â

www.uspg.org.uk/forsuchatime ■

ASTUDIAET 6

AIL-GREADIGAETH

CAMAU CYNTAF

Sut olwg fyddai ar fynegiant radical a thu hwnt i'n dychymyg o Greadigaeth newydd Duw? Sut fedrwn ni ehangu ein gweledigaeth a'n creadigrwydd er mwyn cael cipolwg ar yr hyn sydd gan Dduw ar ein cyfer? Sut all eglwysi o gwmpas y byd ein helpu gyda hyn?

MEDDYLIAU O SEFYDLIAD GWLEDIG ASIA YN SIAPAN

Gan y Parchedig Jonathan McCurley

Trwy ei Raglen Hyfforddi naw-mis, mae Sefydliad Gwledig Asia (SGA) yn ceisio byw yn ôl diwinyddiaeth 'y tri chariad' yn ei gymuned. Sail y ffordd hon o fyw yw Cristnogaeth ymarferol yn cael ei byw mewn cyd-destun gwledig, a gyflwynwyd yn wreiddiol gan y Parchedig Nikolai Frederik Severin

Grundtvig o Ddenmark a'i ddwyn i Siapan gan y Parchedig Toyohiko Kagawa. Wrth garu Duw, caru'n gilydd a charu'r pridd – y tri chariad – ceisiwn gyflawni teyrnas nefol ddyfodol Duw; ail-Greadigaeth o'r bywyd mae Duw wedi ei ragweld ar ein cyfer.



Gwahoddwn arweinwyr gwledig a gwirfoddolwyr gyda chalonnau at wasanaeth – o Asia, Affrica, Ewrop, y Môr Tawel a chyfandiroedd America – i ymweld â Siapan i gael eu hyfforddi, ochr yn ochr â staff rhyngwladol, yn ffyrdd ail-Greadigaeth. Wynebwn ein gwahaniaethau fel personau gyda diwylliannau, byd-olygon, crefyddau a phrofiadau gwahanol. Yn ein hamrywiaeth, dysgwn yn ddyddiol sut i wasanaethu a charu'n gilydd.

Gwaith 'Bwydfywyd' dyddiol yw sail y ffordd hon o fyw. Bathwyd y gair 'bwydfywyd' gan y Parchedig Ddr Toshihiro Takami fel modd o'n hatgoffa na ellir gwahanu bywyd a bwyd. Wrth dyfu yn a chynaeafu o'r pridd, gwnawn fwy na chynhyrchu bwyd. 'Rydym yn ail-greu ein bywydau'n hunain. Trwy drin y pridd yn barhaol, hau hadau, gofalu am anifeiliaid, cynaeafu fel cymunedau, a rhannu pryddau bwyd o gylch bwrdd cyffredin, y mae'r broses gyfan yn un o feithrin corff ac enaid.

Wrth inni ymgasglu i rannu ffrwyth llafur ein gilydd, cofiwn am a chawn ein llygaid wedi'u hagog i waith Duw, sy'n dwyn bywyd allan o'r Greadigaeth a, thrwy'r gymuned, ei rannu â'n gilydd. Wrth

drin y tir, wrth hyfforddi, ac wrth groesawu ymwelwyr, gwelwn Dduw ar waith yn trawsnewid bob un ohonom a'r Greadigaeth ei hunan ar ddelw Iesu Grist.

Nid llawenydd yw unig ffrwyth y gwaith hwn oherwydd, wrth i'r byd ddiodeff ynghanol afiechyd a gwrthdaro, dioddefwn ninnau hefyd. Wynebwn anawsterau dyddiol wrth fyw gyda'n gilydd, wrth drin y pridd ac wrth ddeall sut mae Duw'n gweithio yn y byd. Nid yw hyn yn ddim newydd.

Atgoffir ni gan Sant Paul nad yw'n gorthrymderau ni ond yn atsain o'r ochneidio mae'r Greadigaeth yn ei brofi wrth iddi ddisgwyl am waredigaeth, am ail-Greadigaeth. Dyma'n gobaith a'n nod, y bydd Duw, wrth i ni ochneidio gyda'r Greadigaeth, yn ein trawsnewid ni a'r byd i fod yn Greadigaeth newydd. Mae'r ochneidio hwn yn parhau. Wedi'r amser a dreuliwn gyda'n gilydd, bob blwyddyn bydd y gwirfoddolwyr a'r arweinwyr gwledig yn dychwelyd i'w cartrefi i roi ar waith y profiad a gawsant, a bydd aelodau'r gymuned sy'n dal yno yn dechrau paratoi eto at gyfer cymuned newydd, blwyddyn newydd a mynegiant newydd o deyrnas Dduw.



Y mae'r broses gyfan yn un o feithrin corff ac enaid

CWESTIYNAU

- Mae Sefydliad Gwledig Asia yn cynnig model ar gyfer ‘ail-Greadigaeth’ mewn cymuned. Ym mha ffyrdd ydym ni neu’n heglwys yn asiantau ‘ail-Greadigaeth’?
- “Wynebwn ein gwahaniaethau fel personau gyda diwyllianau, byd-olygon, crefyddau a phrofiadau gwahanol. Yn ein hamrywiaeth, dysgw’n yn ddyddiol sut i wasanaethu a charu’n gilydd.” Ym mha ffyrdd y mae dathlu amrywiaeth yn rhan bwysig o adnewyddu’n meddyliau?
- Darllenwch eto’r llinell “Nid llawenydd yw unig ffrwyth y gwaith hwn oherwydd, wrth i’r byd ddioddef ynghanol afiechyd a gwrthdaro, dioddefwn ninnau hefyd.” Rhannwch eich ymatebion gwahanol i hyn.

DATGUDDIAD 21:1-7

- ¹ Yna gwelais nef newydd a daear newydd; oherwydd yr oedd y nef gyntaf a’r ddaear gyntaf wedi mynd heibio, ac nid oedd môr mwyach.
- ² A gwelais y ddinas sanctaidd, Jerwsalem newydd, yn disgyn o’r nef oddi wrth Dduw, wedi ei pharatoi fel priodferch wedi ei thecáu i’w gŵr.
- ³ Clywais lais uchel o’r orsedd yn dweud, “Wele, y mae preswylfa Duw gyda’r ddynoliaeth; bydd ef yn preswyllo gyda hwy, byddant hwy yn bobloedd iddo ef, a bydd Duw ei hun gyda hwy, yn Dduw iddynt.
- ⁴ Fe sych bob deigryn o’u llygaid hwy, ac ni bydd marwolaeth mwyach, na galar na llefain na phoen. Y mae’r pethau cyntaf wedi mynd heibio.”
- ⁵ Yna dywedodd yr hwn oedd yn eistedd ar yr orsedd, “Wele, yr wyf yn gwneud pob peth yn newydd.” Dywedodd hefyd, “Ysgrifenna, oherwydd dyma eiriau ffyddlon a gwir.”
- ⁶ A dywedodd wrthyf, “Y mae’r cwbl ar ben! Myfi yw Alfa ac Omega, y dechrau a’r diwedd. Rhoddaf fi i’r sychedig ddiod yn rhodd o ffynnon dŵr y bywyd.
- ⁷ Caiff y rhai sy’n gorchfygu etifeddu’r pethau hyn; byddaf yn Dduw iddynt, a byddant hwythau’n blant i mi.

CWESTIYNAU

- Mae’r adran Feiblaidd hon yn rhoi inni weledigaeth o Ddaear wedi’i ‘thrawsnewid’, ei hadfer i’w gogoniant gwreiddiol, Duw-ganolog. Pa fath ar fyd ydym am ei weld pan fydd Covid-19 drosodd?
- Beth fu’r dylanwad mwyaf arwyddocaol arnoch yn ystod y cwrs hwn?
- Nodwch dri pheth, yn ychwanegol at y gweithredoedd penodol a wnaethoch yn ystod y cwrs, yr ydych am ymrwymo i’w cyflawni wedi gorffen y cwrs astudio hwn naill ai fel unigolyn neu fel rhan o deulu’r eglwys.

GWEDDI I GLOI

Dduw ein Crëwr, fel unigolion a chylchoedd, boed inni ddod at ein gilydd mewn solidariaeth i feddwl a gweithredu yn enw’r dyfodol, gan gadw llygaid diffuant ar Grist. Wrth iti weithio ynom ni ac yn y Greadigaeth, boed i ni fod yn effro i symudiadau’r Ysbryd Glân, er mwyn i ni fyw mewn ffyrdd fydd yn cynnal bywyd yn y dyfodol. Amen.

Aralleiriwyd o’r erthygl ‘Questioning the Culture of Gluttony’, a ysgrifennwyd gan y Parchedig Ddr Toshihiro Takami yn 1987, a gymerwyd o’r Cylchgrawn Eudoo, Cyf 3, 2019, Sefydliad Gwledig Asia, Nasushiobara, Siapan.

GWEITHREDU

Gwnewch yr wythnos hon yn wythnos ddi-gig. Gall bwyta llai o gig, hyd yn oed ychydig yn llai, gael effaith ar yr amgylchedd. Rhydd gyfle ichi hefyd fyw’n fwy syml a chael hyd i’r bwyd yn lleol. Ymrwymwch i beidio â bwyta cig yr wythnos hon. Rhowch yr arian y byddwch yn ei arbed yn y Blwch Grawys.

Os ydych eisoes yn llysieuydd neu’n fegan ymrwymwch i fwyta llysiâu a dyfwyd yn y wlad hon yn unig fel y gallwch arbed milltiroedd awyr. Rhowch 20c yn y Blwch neu Jar am bob math ar lysieuyn o’r wlad hon yr ydych yn ei fwyta. ■

RHESTR TERMAU

Amgylchedd/Amgylcheddol

Argyfwng Amgylcheddol Pan mae newidiadau i'r amgylchedd yng nghyfeirnod rhywogaeth yn bygwth ei oroesiad parhaol.

Canlyniad yw'r argyfwng amgylcheddol byd-eang cyfredol i fethiant y ddynolryw i fyw'n gynaliadwy ac mae'n cynnwys nifer o faterion megis llygredd, newid hinsawdd, lleihad bioamrywiaeth a difodiant rhywogaethau, erydu'r pridd, datgoedwigo a chynhyrchu gwastraff gwenwynig.

Bydd goresgyn yr argyfwng amgylcheddol yn gofyn am newidiadau radical yn y modd y mae dynolryw yn ymberthyn i'w gilydd ac i'r Ddaear.

Amgylcheddaeth Rhyng-adrannol Cyfeiria hyn at y ddealltwriaeth fod yr anghyfiawnderau sy'n digwydd i'r Ddaear ac i bobl yn hanfodol gysylltiedig â'i gilydd. Caiff materion cymdeithasol megis anghyfiawnder hiliol, gwahaniaethu rhywiol, rhaniadau gwledig/trefol a thlodi materol ddylanwad ar (a'u dylanwadu gan) anghyfiawnder amgylcheddol.

Mae'n dilyn fod yn rhaid inni ystyried y materion hyn gyda'i gilydd: rhaid i'r alwad am gyfiawnder amgylcheddol fod yn alwad yn ogystal am gyfiawnder cymdeithasol.

Cyfiawnder amgylcheddol Pan mae dynolryw yn byw o fewn cyfyngiadau naturiol ac mewn perthynas gysylltiol â'r Cread cyfan.

Y mae cyfiawnder amgylcheddol yn cynnwys holl elfennau cyfiawnder cymdeithasol (cyfiawnder rhywiol, cyfiawnder hiliol, cyfiawnder economaidd ayyb) gyda'r nod o weithredu economaidd i gynhyrchu digon i gwrdd ag anghenion y Cread yn hytrach na cheisio twf diddiwedd sy'n amhosibl ar blaned derfynedig.

Cyfrifoldeb cyffredin ond gwahaniaethol Egwyddor sy'n cydnabod, tra bod gan bob gwladwriaeth gyfrifoldeb dros ymateb i newid hinsawdd, mae eu cyfrifoldebau'n gwahaniaethu yn unol â'u cyfraniadau cyfredol a hanesyddol i allyriadau nwyau tŷ gwydr a'u gallu cymdeithasol ac economaidd i ymateb i effeithiau newid hinsawdd.

Daeth yn rhan gyfreithiol o fframwaith y Cenhedloedd Unedig yn 1992.

Cynladwyedd Yn ôl Adroddiad Brundtland (1987), datblygiad cynaliadwy yw 'datblygiad sy'n cyfarfod â gofynion y presennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gyfarfod â'u gofynion hwythau.'

Cytundeb Paris Mabwysiadwyd hwn yn 2015. Dyma'r cytundeb byd-eang mwyaf diweddar i geisio goresgyn newid hinsawdd ac i gyflymu a dwysau'r gweithredu a'r buddsoddi sy'n angenrheidiol i sicrhau dyfodol carbon-isel.

Cytuna gwledydd i gadw'r cynnydd yn nhymheredd byd-eang y ganrif hon yn sylweddol o dan 2 radd Celsius uwchlaw lefelau cyn-ddiwydiannol ac i ymdrechu i gyfyngu'r cynnydd mewn tymheredd fwy fyth i 1.5 gradd Celsius.

Hinsawdd

Argyfwng hinsawdd Sefyllfa lle mae trychineb amgylcheddol ar fin digwydd o ganlyniad i newid hinsawdd.

Y mae ieithwedd yn bwysig a chaiff ieithwedd 'newid hinsawdd' ei feirniadu am nad yw'n adlewyrchu brys a difrifoldeb y mater a hynny'n arwain at fethiant pobl i weithredu.

Cyfiawnder hinsawdd Dyma un agwedd ar gyfiawnder amgylcheddol. Mae'n cydnabod mai'r sawl sydd â'r lleiaf o gyfrifoldeb dros achosi newid hinsawdd sy'n fwyaf tebygol o ddiodeff ei effeithiau oherwydd eu daearyddiaeth ac am eu bod yn perthyn i genhedlaeth arbennig. Sicrha'r cysyniad hwn na chyfyngir newid hinsawdd i feysydd gwyyddorau naturiol na gwleidyddiaeth ond y caiff ei weld fel mater personol a moesol, sy'n ystyried materion megis cydraddoldeb, hawliau dynol, hawliau torfol a chyfrifoldeb hanesyddol dros newid hinsawdd.

Newid hinsawdd Newid tymor hir ym mhatriau arferol y tywydd ar draws y byd. Er canol y 19eg ganrif, cyfrannodd bobl tuag at ryddhau carbon deuocsid a nwyau tŷ gwydr eraill i'r awyr. Achosir cynnydd mewn tymheredd gan yr effaith hwn, gan arwain at newidiadau tymor-hir i'r hinsawdd.

Moment 'kairos' Daw'r gair 'kairos' o'r Groeg clasurol a'i ystyr yw amser gosodedig neu moment o gyfle.

Pwyntiau tipio Cyrhaeddir y rhain pan na ellir atal effeithiau'r argyfwng hinsawdd, gan wthio rhannau o system y Ddaear i newid sydyn a di-droi nôl.

Y mae pwyntiau tipio posibl yn cynnwys colli'r haenau iâ, colli fforestydd a ffynonellau carbon eraill, a newidiadau yng nghylchrediad y cefnforoedd. ■

SUCH A TIME AS THIS

DONATION FORM (CONTINUED)

I enclose Gift Aid Collection Envelopes

Make your donation go further with Gift Aid:

giftaid it

I am a UK tax payer and want all my donations, past, present and future to USPG to be treated as Gift Aid donations. I understand that if I pay LESS Income Tax and/or Capital Gains Tax than the amount of Gift Aid claimed on all my donations in that tax year, it is my responsibility to pay any difference. I understand that USPG will reclaim 25p of tax on every £1 that I give and that Gift Aid will be used to fund the work of USPG around the world.

Signature..... Date... (DAY)..... (MONTH)..... (YEAR).....

Cadw mewn cysylltiad

Bydd USPG yn awyddus iawn i gadw mewn cysylltiad â chi er mwyn eich diweddarau ar waith ein partneriaid eglwys a chymunedau ar draws y byd. Mae gofalu am eich manylion yn dda yn bwysig inni a 'rydym yn awyddus i gysylltu â chi mewn ffyrdd sy'n gweithio i chi. Os ydych eisoes wedi dewis derbyn e-bost oddi wrthym byddwn yn parhau i gysylltu â chi fel hyn. Gallwch dynnu allan unrhyw bryd. Fodd bynnag, os nad ydych yn derbyn ein e-gylchlythyr rhwch wybod i ni, os gwelwch yn dda, a gawn ni gysylltu â chi drwy e-bost..

Ydwyf, 'rwy'n hapus ichi gysylltu â mi drwy e-bost

Efallai y byddwn yn cysylltu â chi drwy'r post neu'r ffôn. Os nad ydych am glywed gennym neu os oes gennych eich dewis ddull cysylltu, rhwch wybod i ni drwy info@uspg.org.uk. Pan rowch eich manylion inni, cewch eich ychwanegu at ein bâs data diogel fel y gallwn gysylltu â chi yn ôl eich dymuniad. Gallwch ddarllen ein datganiad preifatrwydd data llawn ar info@uspg.org.uk/privacy.

Please return to: USPG, 5 Trinity Street, London SE1 1DB

Or you can call 020 7921 2200 or visit www.uspg.org.uk/forsuchatime

DIOLCH AM EICH CEFNOGAETH



USPG A'CH EGLWYS CHI

'Rydym yn byw mewn byd toredig ac anghyfartal. Geilw hyn am eiriau a gweithredoedd sy'n mynegi solidariaeth ac yn dangos cariad Duw. A wnewch chi ymuno gydag eglwys eraill ar draws y byd yn eu cenhadaeth o drawsnewid bywydau drwy addysg, gofal iechyd a chyfiawnder i bawb?

Gweddïwch dros yr eglwys fyd-eang – gallwch dderbyn dyddiadur gweddi chwarterol neu fe allwch ei ddarllen ar-lein ar www.uspg.org.uk/pray

Beth am gael eich ysbrydoli drwy gael rhywun o USPG i ddod i siarad yn eich eglwys chi? Cysylltwch drwy e-bost neu drwy ffonio **020 7921 2200**

Defnyddiwch ein cyrsiau astudiaethau Beiblaidd – mae gennym ystod eang o adnoddau ichi eu defnyddio yn eich eglwys. Gallwch eu lawrlwytho neu eu harchebu yma: www.uspg.org.uk/resources

Codi arian at USPG – Y mae nifer o ffyrdd i chi a'ch eglwys godi arian. Gallwn roi cyflenwad o amlenni Rhodd Cymorth ichi, blychau casglu neu adnoddau eraill. Os hoffech fynd ati gyda her arbennig gallwn eich helpu gyda syniadau codi arian, eich helpu gyda'ch tudalen cyfrannu cyfiawn a llawer mwy. Am fwy o wybodaeth ymwelwch â www.uspg.org.uk/fundraise

PUM NOD CENHADAETH

Wedi eu mabwysiadu gan y Cyngor Anglicanaidd Ymgynghorol ym 1990, mae'r Pum Nod Cenhadaeth yn cynrychioli dealltwriaeth eang o genhadaeth ar draws y Cymunedb Anglicanaidd gan gynnwys ffrydiau efengyleiddio, addysgol, bugeiliol, cyfiawnder ac amgylcheddol, trwy:

- 1** GYHOEDDI NEWYDDION DA Y DEYRNAS.
- 2** DDYSGU, BEDYDDIO A MEITHRIN CREDINWYR NEWYDD.
- 3** YMATEB I ANGEN DYNOL TRWY WASANAETH CARIADUS.
- 4** GEISIO TRAWSNEWID STRWYTHURAU ANGHYFIAWN CYMDEITHAS, I HERIO TRAIS O BOB MATH AC I GEISIO HEDDWCH A CHYMOD.
- 5** GEISIO GWARCHOD CYFANRWYDD Y CREAD A CHYNNAL AC ADNEWYDDU BYWYD AR Y DDAEAR.

Asiantaeth Genhadol Anglicanaidd yw USPG sy'n partneru gydag eglwysi a chymunedau'n fyd-eang yng ngenhadaeth Duw i fywchau ffydd, cryfhau cyd-berthyn, datgloi potensial a sefyll dros gyfiawnder.

SEFYDLWYD 1701.

USPG

5 Trinity Street, London, SE1 1DB
0207 921 2200
www.USPG.org.uk

Dilynwch ni ar:



Rhif Elusen Gofrestredig: 234518

